OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3052 (Cy.268)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009

Gwnaed - - - -	*17 Tachwedd 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Rhagfyr 2009*

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Chwefror 2009 ar adolygiad a wnaed gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar ffiniau cymunedau, ynghyd â chynigion a luniwyd gan y Comisiwn gogyfer â'r rheiny.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2009.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Mae "Map A" ("*Map A*"),"Map B" ("*Map B*") a "Map C" ("*Map C*") yn golygu yn eu tro y mapiau sydd wedi'u marcio A, B ac C yng Ngorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009, sydd wedi'u hadneuo yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**); ac

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol gyffelyb, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

3. Gwneir newidiadau i ardal llywodraeth leol Dinas a Sir Caerdydd yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

Trowbridge a Phentref Llaneirwg — newid mewn ardaloedd cymunedol

4.—(1) Trosglwyddir y rhannau o gymuned Trowbridge a ddisgrifir ym mharagraff (2) i gymuned Pentref Llaneirwg.

(2) Y rhannau hynny yw—

(i) y rhan a ddangosir â chroeslinellau ar Fap A;

(ii) y rhan a ddangosir â chroeslinellau ar Fap B;

(iii) y rhan a ddangosir fel rhan groeslinellog "a" ar Fap C.

Tredelerch a Phentref Llaneirwg — newid mewn ardaloedd cymunedol

5. Trosglwyddir y rhan honno o gymuned Tredelerch a ddangosir fel rhan groeslinellog "b" ar Fap C i gymuned Pentref Llaneirwg.

Pentref Llaneirwg/Pontprennau — adran etholiadol

6. Mae'r rhan a drosglwyddir o dan erthyglau 4 a 5 yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pentref Llaneirwg/Pontprennau.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

17 Tachwedd 2009

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi eu heffaith i gynigion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a adroddodd ym mis Chwefror 2009 ar adolygiad o ffiniau a wnaed gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd. Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i'r ffiniau presennol. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

Mae printiau o fapiau yn dangos y ffiniau wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol.